

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held
at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 2ail Medi, 2021 at 2.00 pm

CYNGHORWYR Cynghorydd Sirol P White (Cadeirydd)
YN Cynghorydd Sirol J. Higginson (Is-Gadeirydd)
BRESENNOL:

Cynghorydd Sirol: A. Easson, P. Murphy, V. Smith and
B. Strong

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Nicola Perry	Uwch Swyddog Democratiaeth
Andrew Wathan	Prif Archwilydd Mewnol
Peter Davies	Prif Swyddog, Adnoddau
Wendy Barnard	Swyddog Gwasanaethau Democratiaid
Charlotte Owen	Swyddog Archwilio Cymru
Richard Jones	Rheolwr Perfformiad
Jonathan Davies	Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol P. Jordan, M.Lane and J.Watkins

1. Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd buddiannau i'w datgan.

2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

3. Yn nodi'r Rhestr o Gamau Gweithredu o'r cyfarfod blaenorol

Nodwyd y rhestr weithredu o'r cyfarfod blaenorol

Datganiad Drafft o gyfrifon: Gofynnodd y Cynghorydd Sir Easson a oedd newidiadau i fuddsoddiadau yn effeithio ar y rhwymedigaethau e.e. penderfyniadau gwyrdd ac eco ym mhorthfolio buddsoddi'r gronfa bensiwn. Cafwyd ymateb i Aelodau'r Pwyllgor gan y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol Dros Dro ar 8^{fed} Awst 2021. Cadarnhaodd y Cynghorydd Easson ei fod yn fodlon â chynnwys yr ymateb.

4. Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol Archwilio Cymru

Cyflwynodd Swyddog Archwilio Cymru Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Sir Fynwy a oedd yn ystyried yn benodol effaith ariannol y pandemig o ran costau ychwanegol yr aethpwyd iddynt a'r incwm a gollir. Ymatebodd y Dirprwy Brif Weithredwr a Phrif Swyddog Adnoddau i'r adroddiad ar ran yr awdurdod. Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau:

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 2ail Medi, 2021 at 2.00 pm

- Cyfeiriodd Aelod at yr angen i ailgyflenwi cronfeydd wrth gefn pan fydd gwargedion ar gael trwy fesurau arbed costau. Nodwyd bod polisi Llywodraeth Cymru o ddyraniadau isel parhaus Grant Cymorth Refeniw i'r Sir yn cyfyngu ar y cyfle i wneud hynny.
- Dywedodd Aelod fod cronfeydd wrth gefn bob amser wedi bod yn broblem yn y Sir a gofynnodd am wybodaeth bellach. Cytunodd y Dirprwy Brif Weithredwr a Phrif Swyddog Adnoddau fod gan y Sir gronfeydd wrth gefn isel. Mae pob cyngor yng Nghymru yn parhau i dderbyn cyllid Caledi Covid ac maent hefyd wedi derbyn cyllid pellach i'w galluogi i atgyfnerthu eu cronfeydd wrth gefn felly roedd yn bosibl cyfrannu £4m at gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar ddiwedd 20/21.

Nodwyd bod uchdwr wedi'i adeiladu yng Nghronfa'r Cyngor ar ddiwedd 2019/20 o ganlyniad i adferiad TAW. Pan ddechreuodd y pandemig, neilltuwyd cyllid ar gyfer yr ansicrwydd oedd o'i flaen. Mae £1.8m yn dal i gael ei gynnwys fel Uchdwr ynghyd â'r Cyllid Caledi Covid gwerth £4m.

Amlygodd monitro Cyllideb Mis 2 bwysau gwasanaethau nad oedd yn gysylltiedig â Covid, e.e. gofal cymdeithasol oedolion ac anghenion dysgu ychwanegol a chofnodwyd gorwariant o £4m y bydd yn rhaid mynd i'r afael ag ef. At hynny, disgwylir i'r pwysau a nodir ym Mis 2 ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion ac ati godi ac nid yw'n hysbys a fydd iawndal pellach gan Lywodraeth Cymru yn hyn o beth neu a fydd angen cyfraniad o'r cronfeydd wrth gefn.

Nodwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

5. Siarter Archwiliad Mewnol

Cyflwynwyd yr adroddiad ar y Siarter Archwilio Mewnol diwygiedig gan y Prif Archwilydd Mewnol. Yna gwahoddwyd cwestiynau a sylwadau gan Aelodau'r Pwyllgor.

Gan nad oedd unrhyw gwestiynau, cefnogodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y Siarter Archwilio Mewnol wedi'i diweddarau, yn unol ag argymhellion yr adroddiad.

6. Adroddiad Cynnydd yr Archwiliad Mewnol – Chwarter 1

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol yr Adroddiad Cynnydd Archwiliad Mewnol Chwarter 1 (1^{af} Ebrill - 30^{ain} Mehefin 2021). Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd cwestiynau a sylwadau gan Aelodau'r Pwyllgor.

Cyfeiriodd Aelod at adroddiadau blaenorol i'r Pwyllgor ynghylch twyll yn ymwneud â grantiau gan Lywodraeth Cymru. Fe'i cwestiynwyd, o'r twyll a ddatgelwyd, faint o erlyniadau a wnaed, faint oedd yn llwyddiannus ac a oes hyder bod gwraidd y broblem wedi'i sefydlu. Ymatebwyd bod yr erlyniadau bellach y tu allan i gylch gwaith y Cyngor ar ôl cael eu cyfeirio at yr Heddlu. Sefydlwyd ei fod yn fater ledled y wlad nid yn lleol. Ni dderbyniwyd adborth ar gynnydd. Ychwanegwyd, lle canfuwyd twyll yn gynnar, ei bod yn bosibl adennill rhai o'r grantiau a dalwyd yn ôl i'r awdurdod trwy gysylltu â thîm twyll ein banc i rewi'r cyfrifon perthnasol. Mae peth arian, ond nid y cyfan, wedi'i ddychwelyd.

Nododd y Cadeirydd na fu ymweliadau safle yn bosibl yn ystod y pandemig a gofynnodd a oedd hon yn broblem sylweddol. Cadarnhawyd mai'r prif effaith yw ymestyn yr amser sydd ei angen i gyflawni'r gwaith. Gan nad yw safleoedd wedi bod ar agor, nid oes gan waith dilynol lawer i'w archwilio. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ychwanegu yn Chwarter 4 neu ei roi yn ôl i Gynllun Archwilio 2022/23. Lle mae ymweliadau ysgolion yn y cwestiwn, mae'r Archwiliad Mewnol wedi

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 2ail Medi, 2021 at 2.00 pm

cysylltu â'r Swyddogion Cymorth Ysgolion i ddarparu gwybodaeth trwy amryw o ddulliau electronig.

Yn unol ag argymhellion yr adroddiad, nododd y Pwyllgor y safbwyntiau archwilio a gyhoeddwyd a nododd y cynnydd a wnaed gan yr Adran tuag at fodloni Cynllun Archwilio Gweithredol 2021/22 a dangosyddion perfformiad yr Adran ar gam fis 3 y flwyddyn ariannol.

7. Blaengynllun Gwaith

Nodwyd y Blaengynllun Gaith. Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Bydd Datganiad Cyfrifon Archwiliedig ISA260 yn cael ei symud o 7^{fed} Hydref 2021 i gyfarfod arbennig ddechrau mis Tachwedd cyn i'r Cyngor Sir ei ystyried ar 4^{ydd} Tachwedd 2021.

Bydd yr Adroddiad Trosolwg o Drefniadau Perfformiad yn cael ei symud o'r 7^{fed} Hydref 2021 i gyfarfod diweddarach oherwydd y newidiadau sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

8. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod cywir yn amodol ar y canlynol:

Eitem 7 - Datganiad Cyfrifon Drafft 2020/21 - Cronfeydd Ymddiriedolaeth Elusennol. Cyflwynodd Swyddog Archwilio Cymru'r Cynllun Archwilio a chyflwynodd y Swyddog Cyllid Cynorthwyol y cyfrifon drafft.

9. Yn nodi dyddiad y cyfarfod nesaf ar 7fed Hydref 2021 am 2.00pm

10. ****Yn nodi cyfarfod o'r Gweithgor i adolygu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 2ail Medi 2021 am 3.00pm****

Gorffennodd y cyfarfod am 2.40 pm